27ain o Ionawr 2021

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 2il o Chwefror 2021 am 6.00 o'r gloch yr hwyr.

Oherwydd Covid-19 bydd y cyfarfod yn cymryd lle o'ch cartref, ar lein drwy ddefnyddio system "Zoom".

Bydd gwahoddiad ffurfiol i'r sustem trwy "Zoom" yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol (yng nghefn y rhaglen):-

(i) Cyngor Llawn, 5ed o Ionawr 2021 (**Atodiad Gwyrdd**).
(ii) Pwyllgor Adloniant, 12fed o Ionawr 2021 (**Atodiad Pinc**).

6.Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

7. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

8. Maerolaeth

Enwebu Maer etholedig am y flwyddyn 2021/22.

9. Cofis Curo Corona

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod (copi ynghlwm).

10. Yr Heddlu

Nodwyd y cafwyd cyfarfod gyda'r Heddlu cyn y Nadolig, a cafwyd cytundeb yn y cyfarfod y byddai'n syniad eu gwahodd i'r Cyngor Llawn yn rheolaidd i drafod unrhyw fater perthnasol yn y dref.

11. Diffibrilwyr (Defibs)

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar ar y sefyllfa o ran defibs yng Nghaernarfon (copi ynghlwm).

12. Tân Gwyllt

Cyflwyno'r ymateb a gafwyd gan Siân Gwenllian, AC, i'r llythyr anfonwyd ati fel canlyniad i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Jason Parry yn y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 1af o Ragfyr (copi ynghlwm).

13. Papur Cyflogaeth Twristiaeth Cymru

Cyflwyno i'w drafod ddogfen Cylch yr Iaith yng Nghymru ynglŷn â Thwristiaeth yng Nghymru (copi ynghlwm).

14. Diwrnod Gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol & Rheng Flaen – 5ed o Orffennaf 2021

Cyflwyno gohebiaeth o ran yr uchod (copi ynghlwm)

15. Cofrestrfa Tir EM – Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Cyflwyno gwybodaeth am arolwg sydd angen ei gwblhau erbyn y 26ain i Chwefror (copi ynghlwm).

16. Lleoedd ar Hyfforddiant

Cyflwyno gwybodaeth bod lleoedd hyfforddiant yn rhad ac am ddim ar gael ar gyfer modiwlau craidd Unllais Cymru (copi o'r ohebiaeth ynghlwm).

17. Cwestiynau

18. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau c
anlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

19. Grant CaerAilGyfle

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod (copi ynghlwm).

20. Gwefan

Cyflwyno adroddiad llafar ar y gwaith o gael gwefan newydd i'r Cyngor.